**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Safonau

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Gwener, 20 Ionawr 2023 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Mike Lewis (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|
| M B Lewis | L G Thomas |

**Cynrychiolydd Cyngor Cymuned/Tref:** Carlo Rabaiotti

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|---|
| Michaela Jones | Mark Rees | |
| Janet Pardue-Wood | Margaret Williams | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): O G James
Aelodau Cyfetholedig(wyr): DD/B

---

## 27 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Datganodd y Cynghorydd L G Thomas gysylltiad personol a rhagfarnol â chofnod 34 "Apêl Polisi Ymddygiad Afresymol Cwsmeriaid" a gadawodd y cyfarfod cyn i'r eitem gael ei thrafod.

## 28 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 5 Hydref, 7 Hydref a 25 Tachwedd 2022 fel cofnod cywir.

## 29 Llythyr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad i ystyried llythyr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) o ran newidiadau bach i Arweiniad y Côd Cwynion a'r broses. Y prif bwyntiau oedd:

a. Rhennir hysbysiad o benderfyniad unigol sy'n amlinellu'r gŵyn a'r penderfyniad â Swyddogion Monitro fel y gallant rannu hyn â'r Pwyllgorau Safonau (lle bo hynny'n briodol);
b. Treialwyd dull newydd o ran sut i hysbysu aelodau a gyhuddwyd a Swyddogion Monitro o gŵyn;
c. roedd OGCC yn bwriadu ymgysylltu â Chadeiryddion drwy Fforwm Cenedlaethol ar gyfer Pwyllgorau Safonau.

**Penderfynwyd** y byddai'r Pwyllgor Safonau'n nodi'r llythyr dyddiedig 10 Tachwedd a atodwyd yn Atodiad A sy'n amlinellu'r mân newidiadau i'r weithdrefn.

**30 Diweddariad ar Gynlluniau Hyfforddi Cynghorau Tref/Cymuned. (Llafar)**

Atgoffodd y Swyddog Monitro'r Pwyllgor o’r ddyletswydd newydd o dan Adran 67 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, sy'n nodi bod angen i Gynghorau Cymuned lunio a chyhoeddi cynllun hyfforddi ar gyfer eu Cynghorwyr a staff cymunedol o fewn 6 mis o'r dyddiad y daeth y ddyletswydd i rym, h.y. 5 Tachwedd 2022.

Nododd fod 19 o'r 24 Cyngor Tref/Cymuned wedi ymateb i'w hymholiad am gopi o'u cynlluniau hyfforddi. Cysylltir â'r cynghorau sy'n weddill i ofyn am eu hymatebion a chyhoeddir adroddiad sy'n amlinellu'r manylion yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Safonau yn y dyfodol i'w ystyried.

**31 Torri Cod Ymddygiad - Cwynion a wnaed i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru). (Er Gwybodaeth)**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad "er gwybodaeth" i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Safonau am benderfyniadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â honiadau bod Cynghorwyr Awdurdodau Lleol a Chynghorwyr Cymuned/Tref wedi torri'r Côd Ymddygiad.

**32 Cynllun Gwaith 2022-2023.**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro gynllun gwaith 2022-2023.

**Penderfynwyd:**

1) Trefnu cyfarfod arbennig ym mis Chwefror 2023 er mwyn cyfarfod ag Arweinwyr Grwpiau i drafod eu dyletswydd newydd;
2) Ychwanegu'r adolygiad o Roddion a Lletygarwch (safoni'r broses) at y cynllun gwaith.

**33 Gwahardd y cyhoedd.**

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem fusnes/eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail ei fod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth

Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes/eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 34 Apelio'r Polisi Ymddygiad Afresymol gan Gwsmeriaid.

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad i ystyried a ddylid caniatáu presenoldeb personol ar gyfer apêl o dan y Polisi Ymddygiad Afresymol Cwsmeriaid.

**Penderfynwyd** gwrthod y cais am bresenoldeb personol ar gyfer apêl o dan y Polisi Ymddygiad Afresymol Cwsmeriaid.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.40 am

**Cadeirydd**